*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru - Crynodeb o Archwiliad Blynyddol 2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi Crynodeb o Archwiliad Blynyddol 2025 a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys yr Awdurdod. Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maen nhw'n sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3 Mae Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2025 yn cynnwys cadarnhau'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru ac mae'n cynnwys archwilio'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol, ardystio rhwymedigaethau gwella'r Awdurdod a chyhoeddiad adroddiadau cenedlaethol.

4 Mae'r holl faterion a geir o fewn Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2025 eisoes wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi'r crynodeb o'r archwiliad blynyddol.**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi asesiad gwrthrychol o berfformiad yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn cynnwys ystyried gwerth am arian. |
| Cyfreithiol | Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd statudol Cymru |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae'r asesiad gwrthrychol mewn nifer o feysydd allweddol yn cefnogi gwaith yr Awdurdod i nodi ac i reoli risg. |